



Eich Cyf:

Ein Cyf: EN020014

Dyddiad: 6 Hydref 2015

Annwyl

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adrannau 89 ac 123 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheolau 8(3) a 9 a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffaeliad Gorfodol) 2010 (fel y'i diwygiwyd) – Rheoliad 6

Cais gan SP MANWEB am Orchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru

Newidiadau i'r cais a'r amserlen archwilio

Diolch i chi, y lawer o bartïon â buddiant a wnaeth sylwadau yn ein gwrandawiadau ac a aeth gyda ni i'n hymweliadau â'r safle fis diwethaf. Roedd y cyfraniadau hyn yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol i'r Awdurdod Archwilio.

Opsiwn B

Ar 16 Medi 2015, cyflwynodd yr ymgeisydd gais am 16 o newidiadau arfaethedig i'r cynllun, a fyddai'n ffurfio Opsiwn B ar gyfer Prosiect Cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru. Mae'r ymgeisydd wedi gofyn am i'r cynllun gwreiddiol, sef Opsiwn A, a'r fersiwn ddiwygiedig, sef Opsiwn B, gael eu harchwilio ochr yn ochr.

Yn ei gais, dywed yr ymgeisydd fod y newidiadau yn deillio o geisiadau a wnaed gan rhai bobl â buddiant yn y tir y mae'r cynllun yn effeithio arno. Mae'r newidiadau, sef lleoliad y polion arfaethedig yn bennaf, yn cynnwys rhai newidiadau i derfynau'r cynllun. Mae hyn yn golygu y byddai angen mwy o dir ar yr ymgeisydd i ymgymryd â chynllun Opsiwn B ac, o ganlyniad, mae wedi gwneud cais am ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael tir ychwanegol yn orfodol. Mae'r dogfennau yn ymwneud ag Opsiwn B wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan yn:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi asesu'r dogfennau ar gyfer Opsiwn B ac wedi dod i'r casgliad y gall eu harchwilio. Felly, mae Opsiwn B wedi ei dderbyn i'r archwiliad erbyn hyn. Gallwch ddarllen penderfyniad gweithdrefnol llawn yr Awdurdod Archwilio ar ein gwefan yn:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3436693>

Hefyd, mae'r Awdurdod Archwilio wedi penderfynu derbyn y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael tir ychwanegol yn orfodol i'r archwiliad yn ymwneud ag Opsiwn B. Mae manylion am benderfyniad yr Awdurdod Archwilio, a wnaed dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffaeliad Gorfodol) 2010 wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan yn:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3410852>

Nawr, gwahoddir partion â buddiant i roi sylwadau ar gynnis Opsiwn B erbyn y dyddiad cau newydd, sef hanner dydd ar ddydd Gwener, 13 Tachwedd 2015. Dylech ddarparu eich sylwadau yn y ffordd arferol, naill ai trwy anfon neges e-bost at NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk neu eu hanfon i'r cyfeiriad ar flaen y llythyr hwn.

Gall unigolion nad ydynt wedi cofrestru ar gyfer yr archwiliad hwn yn flaenorol wneud hynny er mwyn rhoi sylwadau ar Opsiwn B. Os ydych eisoes wedi rhoi sylwadau perthnasol, nid oes angen i chi gofrestru eto. Gellir cyflwyno sylwadau perthnasol yn ymwneud ag Opsiwn B trwy ein gwefan yn

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

Newidiadau i'r amserlen archwilio

Yn sgil cyflwyno Opsiwn B, mae'r Awdurdod Archwilio wedi penderfynu newid yr amserlen archwilio, ac mae hon wedi eu hatodi yn Atodiad A. Felly, ni fydd yr Awdurdod Archwilio yn cynnal y gwrandawiadau a neilltuwyd ar gyfer 10-12 Tachwedd 2015; caiff y rhain eu haildrefnu'n hwyrach yn yr archwiliad. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn anfon ail gylch o gwestiynau ysgrifenedig ddydd Llun 26 Hydref 2015.

Wedi i'r Awdurdod Archwilio gael sylwadau ar Opsiwn B, ynghyd ag unrhyw sylwadau perthnasol ychwanegol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto â rhagor o fanylion am sut y caiff Opsiwn A ac Opsiwn B eu harchwilio.

Yr eiddoch yn gywir

Lillian Harrison

Lillian Harrison
Aelod Arweiniol Panel yr Arolygwyr Archwilio

Atodiadau:

A. Amserlen archwilio ddiwygiedig

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau am gais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno, a dylech gael eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol eich hun, yn ôl yr angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Caiff preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol ei warchod yn unol â'n Siarter Gwybodaeth, y dylech edrych arno cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

Amserlen ar gyfer archwilio'r cais wedi'i ddiwygio

Mae'r Amserlen ar gyfer archwilio'r cais fel y'i diwygiwyd fel a ganlyn:

Eitem	Materion	Erbyn pa ddyddiad
10	<p>Dyddiad Cau 3</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau wedi'r gwrandawriad • Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu draft yr ymgeisydd wedi'i ddiwygio • Unrhyw wybodaeth bellach a gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio 	<p>Dydd Gwener 16 Hydref 2015 am hanner dydd</p>
11	<p>Awdurdod Archwilio yn dosbarthu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ail cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (ar y wefan) 	<p>Dydd Mawrth 27 Hydref 2015</p>
12	<p>Dyddiad Cau 4</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau pellach wedi'r gwrandawriad • Sylwadau ar ddogfennau wedi'r gwrandawriad 	<p>Dydd Llun 2 Tachwedd 2015 am hanner dydd</p>
13	<p>Dyddiad Cau 5</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sywadau ar Opsiwn B • Sylwadau ar ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael tir ychwanegol • Sylwadau ar ddogfennau pellach wedi'r gwrandawriad 	<p>Dydd Gwener 13 Tachwedd 2015 am hanner dydd</p>
14	<p>Dyddiad Cau 6</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i ail cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio 	<p>Dydd Mercher 18 Tachwedd 2015 am hanner dydd</p>
15	<p>Dyddiad Cau 7</p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar ymatebion i ail cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio 	<p>Dydd Iau 3 Rhagfyr 2015 am hanner dydd</p>

16	Dyddiadau wedi'i cadw ar gyfer gwrandawriad llawr agored, gwrandawriad sy'n benodol i'r mater ac/neu gwrandawriad caffael gorfodol ac arolygiad y safle gyda chwmni (os oes angen)	Dydd Llun 7 i dydd Gwener 11 Rhagfyr 2015
17	Dyddiad Cau 8 Dyddiad cau ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau wedi'r gwrandawriad • Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft yr ymgeisydd wedi'i ddiwygio • Unrhyw wybodaeth bellach a gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio 	Dydd Llun 21 Rhagfyr 2015 am hanner dydd
18	Cyheoddi Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop os oes angen	Dydd Llun 21 Rhagfyr 2015
19	Dyddiad Cau 9 Dyddiad cau ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft yr ymgeisydd wedi'i ddiwygio (a'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop os oes angen) • Sylwadau ar ddogfennau wedi'r gwrandawriad • Unrhyw wybodaeth bellach a gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio 	Dydd Iau 21 Ionawr 2016 am hanner dydd
20	Dyddiad Cau 10 Dyddiad cau ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i sylwadau ar Gorchymyn Cydsyniad ar Ddatblygu drafft yr ymgeisydd wedi'i ddiwygio (a'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop os oes angen) • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio 	Dydd Iau 28 Ionawr 2016 am hanner dydd
21	Mae'r Awdurdod Archwilio o dan ddyletswydd i gwblhau archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol	Dydd Iau 28 Ionawr 2016

Dyddiadau Cyhoeddi

Caiff yr holl wybodaeth a dderbynnir ei chyhoeddi ar wefan y prosiect cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau.

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

Agendâu ar gyfer Gwrandawïadau

Sylwer y byddwn yn anelu at gyhoeddi agenda drafft manwl ar gyfer pob gwrandawïad ar wefan y prosiect o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawïad; ond mae'n bosibl y bydd yr agenda ei hun ar ddiwrnod pob gwrandawïad yn destun newidiadau yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio.